**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 26 Hydref 2020 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sherwood (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | P K Jones | C Richards |
| K M Roberts | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Poverty and Prevention Strategy and Development Manager |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D Phillips
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Andrew Davies

---

## 4 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 5 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 28 Medi 2020 a 1 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

## 6 Cylch Gorchwyl. (Er gwybodaeth)

Darparwyd cylch gorchwyl y 5 Pwyllgor Datblygu Polisi er gwybodaeth.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r Cylch Gorchwyl.

## 7 Cyfethol Andrew Davies.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod Andrew Davies wedi'i gyfethol i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi yn ystod 2019-2020 a'i fod wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy.

**Penderfynwyd** y dylid cyfethol Andrew Davies i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

## 8 Dyddiadau ac amserau cyfarfodydd yn y dyfodol. (Trafodaeth)

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi fel arfer yn cwrdd am 3.30pm ar ddydd Llun olaf y mis. Cynigiodd fod y Pwyllgor yn ceisio aildrefnu'r cyfarfodydd hynny sy'n dod o fewn gwyliau'r ysgol.

Yn ogystal, teimlai y byddai angen cyfarfodydd Gweithgor bob mis yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor er mwyn ystyried adroddiadau "Drafft" a sicrhau bod y gwaith yn ystod y flwyddyn yn cael ei gwblhau'n brydlon. Trafodwyd sawl opsiwn a theimlwyd y dylid cynnal cyfarfodydd Gweithgor yn syth ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgor Datblygu Polisi ffurfiol. Gofynnodd yr Aelodau os nad oedd angen y Gweithgor, y dylid eu cynghori yn unol â hynny.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Gwasanaethau Democrataidd yn ail-drefnu unrhyw gyfarfodydd sy'n dod o fewn cyfnodau gwyliau ysgol;
2) Cynhelir Gweithgorau bob mis yn syth ar ôl y Pwyllgor Datblygu Polisi ffurfiol.

## 9 Cyflwyniad - Diweddariad am bolisïau sy'n cael eu datblygu.

Rhoddodd Jo Portwood, Swyddog Polisi a Strategaeth ddiweddariad drwy gyflwyniad ar y polisïau sy'n cael eu datblygu. Ystyriwyd y pynciau hyn gan y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi yn ystod 2019-2020:

- **Hyrwyddo Polisi Credyd Fforddiadwy**

  Nod y Polisi yw rhoi terfyn ar dargedu credyd cost uchel, atal benthyca cost uchel a hyrwyddo mynediad at gredyd tecach a fforddiadwy. Dywedodd fod Aelod y Cabinet wedi'i lofnodi cyn ymgynghori â'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Y gobaith oedd y byddai wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr 2021.

Mynegodd y Pwyllgor ei siom nad oedd y Polisi hwn wedi'i weithredu cyn cyfnod y Nadolig, adeg pan roedd teuluoedd yn fwyaf anghenus ac y gallent fod yn ystyried rhyw fath o gredyd. Trafodwyd ffyrdd amrywiol o hyrwyddo opsiynau credyd ac arbedion fforddiadwy er mwyn helpu pobl i wneud y mwyaf o'u hincwm a'r hawliau megis hysbysebu ar slipiau cyflog staff, mewnrwyd staff a blog y Prif Weithredwr. Yn allanol, gellid ei hyrwyddo drwy wefan y cyngor, llythyrau Treth y Cyngor a'r gwahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd y byddai Cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth Llywodraeth Cymru hefyd ar gael tan 31 Mawrth 2021 i denantiaid y sector rhentu preifat sydd ag ôl-ddyledion rhent a'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd talu rhent misoedd y dyfodol o ganlyniad i Coronafeirws.

- **Polisi Dyledion Corfforaethol**

  Nod y Polisi yw ei gwneud hi'n hawdd talu biliau, annog cyswllt cynnar, cynnig cymorth pan fo angen, osgoi gweithredu pellach a sicrhau arfer teg a chyson wrth gasglu dyledion. Roedd y Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau wedi datblygu Polisi drafft ac roedd datganiad polisi byrrach hefyd wedi'i ddrafftio. Roedd angen datblygu ymhellach gan weithgor.

Byddai'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr Ryland Doyle, Christine Richards a Lesley Walton yn cyfarfod i ystyried y materion a oedd yn weddill cyn cael trafodaeth lawn gyda'r Gweithgor ar y polisi hwn.

- **Polisi Tegwch Gwyrdd**

  Nod y Polisi yw ceisio gwella tegwch gwyrdd drwy gynyddu cyfleoedd i bobl elwa ar gysylltiad â natur a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Datblygwyd polisi drafft gan weithgor a phartneriaid eraill ac roedd cysylltiad â gweithgor Gweithio gyda Natur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddai drafft terfynol yn cael ei adolygu cyn cyflwyno argymhellion i'r Aelod(au) Cabinet.

Bu ymholiad ynghylch sut y byddai'r canlyniadau'n cael eu mesur a phwy fyddai'n gyfrifol amdanynt. Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen ystyried hyn a'i gynnwys yn y cam cynllunio gweithredu.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 10 Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe.

Darparodd Anthony Richards, Rheolwr Datblygu'r Strategaeth Tlodi a'i Atal adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn amlinellu sefydlu Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe.

Darparodd gefndir o ran pam y bu angen y Rhwydwaith, y broses a gynhaliwyd a gwybodaeth am yr ymatebion a gafwyd gan aelodau'r Rhwydwaith i'r 2 gwestiwn canlynol:

1) Sut y gallai Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe gefnogi eu gwaith;
2) Sut y gallai Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe fod o fudd i Ddinas Abertawe.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y rhwydwaith o bell ar 6 Hydref 2020, roedd cyfres o flaenoriaethau a chamau gweithredu wedi'u nodi ac amlinellwyd y rhain yn yr adroddiad.

Byddai'r Rhwydwaith yn cyfarfod yn fisol ac yn cael ei gydgysylltu a'i hwyluso gan y Gwasanaeth Trechu Tlodi.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr Datblygu'r Strategaeth Tlodi a'i Atal am yr wybodaeth ddiweddaraf. Byddai'n dosbarthu'r adroddiad i'r Cydlynydd Ardal Leol i ystyried unrhyw sefydliadau/unigolion ychwanegol i'r grŵp Facebook a allai gefnogi'r

Rhwydwaith. Byddai hefyd yn gofyn i Aelod y Cabinet ofyn i bob Cynghorydd am wybodaeth debyg.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**11 Trafod Cynllun Gwaith 2020-2021.**

Amlinellodd y Cadeirydd y pynciau arfaethedig i'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2020-2021. Yna cafwyd trafodaethau manwl ynghylch y Cynllun Gwaith a oedd yn cynnwys:

- Polisïau/rhaglenni trechu tlodi sy'n dod i'r amlwg

  Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cael eu cyflawni drwy Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn Abertawe Gallai'r Pwyllgor ymgyfarwyddo â dyletswydd economaidd-gymdeithasol y cyngor fel rhan o'r Ddeddf Cydraddoldebau nad oedd wedi'i deddfu eto drwy gyflwyniad gan swyddogion perthnasol.

- Cludiant cyhoeddus (Mynediad at Drafnidiaeth fforddiadwy/Cynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol)

  Derbyn gwybodaeth gan swyddogion am y cyfyngiadau gyda'r cynnig presennol/rôl trafnidiaeth gymunedol mewn gwledydd eraill/ceir cymunedol (ystyriwch system Redibus Reading a Chynllun Ring & Ride Exeter).

- Tyfu bwyd cymunedol

  Cynnwys rhannu gerddi drwy baru'r gerddi mawr hynny nad ydynt yn cael eu defnyddio â'r rheini nad oes ganddynt fynediad i rywle i dyfu bwyd. Ystyried y cynllun "Lle i Dyfu". Sut y gellid defnyddio mannau a rennir mewn datblygiadau tai gan gynnwys mannau Cymdeithasau Tai.

- Undebau Credyd

  Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu, etc. Hyrwyddo undebau credyd ac annog pobl i gynilo a rheoli eu harian eu hunain.

- Y diweddaraf am Fudd-daliadau

  Sicrhau bod y gwaith hyd yn hyn wedi'i gwblhau ac ymchwilio i pam roedd nifer yr aelodau'n isel. Trafodwyd prydau ysgol am ddim ac roedd angen sesiwn ychwanegol ar hawliau lles hefyd.

Yn ogystal, tynnodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion sylw at waith sy'n gysylltiedig â'r cynllun adfer mewn perthynas â thlodi annisgwyl/sydyn. Gofynnodd a fyddai'r pwyllgor yn cysylltu hyn â'r cynllun gwaith y cytunwyd arno.

**Penderfynwyd** ar y canlynol

1) Mae'r eitemau uchod yn ffurfio'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-2021;

2) Dylid trefnu Gweithgor ar Ddyled Gorfforaethol cyn gynted â phosib;
3) Amserlennu cyfarfodydd pellach y Gweithgor.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.11 pm

**Cadeirydd**